

Llanw Llŷn

Rhif 267

MEHEFIN 2000

35c

DARGANFOD Ynys Enlli 2000

Rhwng rŵan a'r haf fe fydd yna oddeutu 1,500 o blant Gwynedd yn cael mynd ar daith gwerth chweil i Enlli. Ar y 7fed o Fehefin cyfle plant ysgol Cymerau oedd hi a dyma Tasha Jones yn dweud yr hanes:



Diwrnod braf oedd hi y bore yma ym Mhwlheli, roeddem yn mynd i Ynys Enlli. Cychwynom o'r ysgol am 8 o'r gloch. Roedd Kenneth wedi codi yn hwyr felly bu'n rhaid aros amdano wrth ymyl y post oherwydd roedd o eisiau cinio i fynd efo fo.

Cawsom ymweld â lleyfydd diddorol yn Aberdaron cyn mynd i Borth Meudwy i ddal y cwch.

Pan oedd pawb yn y cwch cawsom gychwyn, roedd Mr Gruffydd yn mynd yn y cwch patrol ac roeddent yn mynd yn gyflymach na'r cwch mawr. Eisteddais wrth ymyl Zoe a Ben ac roeddem yn edrych drosodd i'r môr ac yn rhoi ein dwylo allan i deimlo'r gwynt. Roedd y cwch yn mynd yn gyflym iawn yr holl ffordd i Ynys Enlli.

Pan gyrhaeddodd yr ynys rhesom ein bagiau mewn cwt, roedd hi yn dresi yn y cwt, oglau pysgod! Cawsom fag coch neu fag glas gan Ymddiriedolaeth Enlli efo gwahanol offer i ni eu defnyddio ar yr ynys fel clipfwrdd, sbienddrych, beiro, pensil, pasteli olew a daliwr trychiilod. I ddechrau aethom at y traeth a gwneud gwaith am y cynefin yn ein llyfrau, wedyn aethom at y bae ble roedd y

morloi. Roeddynt yn arnofio ar y dŵr â'u trwynau yn yr awyr yn edrych yn syn ar ddisgyblion Ysgol Cymerau.

Ar ôl cael hanes y Goleudy aethom i nôl ein bagiau. Roedd llawer o faw defaid o'n cwmpas Fe wnaeth Christine Evans ddweud stori wrthym fel roeddem yn bwyta, roedd hi yn dda iawn.

Ar ôl mynd ar y traeth, aethom i gadw ein bagiau ac aethom i'r siop a gwario pob ceiniog. Roedd cyfle wedyn i fynd i'r toiled, roeddynt yn afiach i mi oherwydd roeddynt yn edrych fel bin, doedd yna ddim dŵr i fflyshio.

Ar ôl i bawb ddod o'r siop a'r rhai dewr fynd i'r toiled aethom i weld adfeilion yr abaty ac ymlaen at y capel. Yno cawsom gyfle i ysgrifennu efo Christine Evans. Buom yn gwrandao arni yn darllen barddoniaeth a rhoddodd syniadau i ninnau hefyd.

Cerddom yn ôl at yr harbwr i wneud gwaith celf efo Ben. Roeddem yn gorfod gwneud llun o rywbeth y gallem ei weld efo'r pasteli olew. Roedd hyn yn dipyn o hwyl ac roedd rhai wedi gwneud lluniau da iawn.

Yn anffodus roedd wedi

Daeth tua 30 o bobl ynghyd i gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ddiwedd Mai i drafod pris uchel v dreth. Roedd y cyfarfod yn un o gyfres a gynhaliwyd yn ddiweddar yng Nghanolfan Llaniestyn. Y gwyn bennaf oedd fod pris y dreth yn codi yn sylweddol bob blwyddyn ac nad ydyw'n amlwg i bobl Llŷn ar be yn union y mae'r arian yn cael ei wario. 'Mae'r dreth dros £500, a wela i ddim ein bod ni' elwa

cyrraedd yn amser i ni fynd adref erbyn hyn ac roedd rhaid i ni ffarwelio ag Ynys Enlli. Pan gyrhaeddodd y cwch i fynd â ni yn ôl aethom i gadw ein bagiau coch a glas ac aethom i'r cwch. Cafodd Miss Jones fynd yn y cwch patrol y tro yma ac roedd Mr Gruffydd a Mr Evans yn y cwch efo ni. Aethom yn y cwch bach i'r cwch mawr eto ac ym Mhorth Meudwy roedd dynion yn ein cario i'r lan, fe neidiodd Mr Evans o'r cwch ond fe wlychodd Mr Gruffydd wrth wneud yr un peth.

Cerddom yn ôl at y bws ac aethom adref yn ôl i Bwllheli. Roeddwn i wedi blino yn lân ond roedd y trip yn werth chweil ac yn dda iawn. Wna i byth anghofio fy nhaith gyntaf i Ynys Enlli.

TASHA TONES
Ysgol Cymerau

fawr ddim ohoni,' meddai Teleri Wyn Jones o Lanestyn, sydd wedi bod yn weithgar yn trefnu'r cyfarfodydd hyn.

Daeth y Cyng Seimon Glyn, E.B. Hughes o Bwllheli ac Evie Griffith o Fotwnnog i'r cyfarfod i ffurfio Panel a buont yn ateb cwestiynau ac yn egluro beth sy'n digwydd i arian y dreth. Eglurodd y Cyng Seimon Glyn fod y dreth, mewn gwirionedd yn talu am lawer iawn o wasanaethau. Cred mai un broblem yw fod y cysylltiad rhwng yr awdurdodau lleol ac ardalwyr Llŷn wedi pellhau ers yr adrefnu Llywodraeth Leol, a chysylltiad wedi'i gollu.

Yn dilyn y cyfarfod mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cais i sefydlu Fforwm Bro, lle gall ardalwyr drafod eu pryderon gydag uwch-swyddogion y Cyngor. Beth yw eich bam am hyn? Fyddech chi'n manteisio ar gyfle felly?

Bydd cyfarfod eto yn Nghanolfan Llaniestyn ar Fehefin 19 am 8 o'r gloch, Beth ydy'ch teimladau chi am y dreth? Mae croeso cynnes i unrhyw un fynd i roi eu bam neu eu sylwadau. Neu estynnwch am bapur a beiro a tarwch lythyr i'r Llanw. Byddem yn croesawu unrhyw drafodaeth.

Enillwyr Eisteddfod Bro Conwy

Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bro Conwy a llongyfarchiadau arbennig i'r enillwyr.



Parti Llefaru Adran Bentref Pont y Gof a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth rhwng 12 a 15 oed. (Llun: Dewi Wyn)



Enlli Pugh, 6 oed, o adran Botwnnog a ddaeth yn gyntaf gyda'r Unawd Cerdd Dant dan 8 oed. (Llun: Dewi Wyn)

Cystadleuaeth Crys T

Mae trefniadau Gŵyl Pen Draw'r Byd yn mynd rhagddynt eto leni. Ymysg y perfformwyr bydd Anweledig, Catsgam, Geraint Roberts a'i fand a Meic Stevens. Y gweithgaredd cyntaf yw cystadleuaeth i ddylunio cynllun ar gyfer y crysau-T leni. Bydd gwobr o CD neu ddau diced i fynd i'r Wyl yn cael eu cynnig i'r enillyddwyr. Anfonwch eich ceisiadau at Mai Scott, Hafoty Edern cyn Gorffennaf 14.